
Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ebrill 2016



Pwrpas y fframwaith hwn yw egluro sut bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu ei rhaglen waith o reoleiddio safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg.

Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg) yn rhoi pwerau gorfodi i'r Comisiynydd. Nid yw'r fframwaith hwn yn ymwneud â gwaith gorfodi'r Comisiynydd. Ceir gwybodaeth am hynny yn y Polisi Gorfodi¹ ei hun. Nid yw'r camau a'r pwerau o fewn y fframwaith hwn yn cyfyngu nac yn amharu ar bwerau gorfodi'r Comisiynydd o dan y Polisi Gorfodi mewn unrhyw fodd.

Nid trwy orfodi yn unig y bydd y Comisiynydd yn sicrhau cydymffurfedd. Mae'r Comisiynydd wedi nodi yn ei chynllun strategol² ar gyfer 2015-17 y rhoddir sylw i ddwy flaenoriaeth wrth reoleiddio safonau'r Gymraeg. Y ddwy flaenoriaeth yw:

- Gweithredu rhaglen reoleiddio ragataliol er mwyn mesur perfformiad sefydliadau yn erbyn dyletswyddau iaith;
- Rhoi barn annibynnol ar berfformiad sefydliadau ac adrodd ar brofiadau iaith defnyddwyr y Gymraeg.

Bydd y Comisiynydd yn cymhell cydymffurfedd er mwyn galluogi pethau i ddigwydd fel y dylent mewn modd rhagataliol ac mae'r fframwaith hwn yn egluro hyd a lled y gwaith.

1 Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg

2 Cynllun Strategol 2015-17

Pam rheoleiddio?

Mae deddfwriaeth iaith sy'n gosod gofynion ar gyrff cyhoeddus i gynllunio eu gwasanaethau fel eu bod ar gael yn Gymraeg yn bodoli ers 1993³. Er hynny, nid yw'n rhwydd bob amser i'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd pob dydd wneud hynny.

Amcanion Llywodraeth Cymru, drwy gyflwyno Mesur y Gymraeg⁴ a Safonau'r Gymraeg, yw: cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion; sicrhau mwy o eglurder a chysondeb o ran y gwasanaethau y gellir disgwyl eu cael yn Gymraeg; creu hawliau i ddinasyddion o ran derbyn gwasanaethau Cymraeg. Fel y nodir yn natganiad polisi Llywodraeth Cymru 'Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen'⁵ bydd y safonau'n gatalydd pwysig ar gyfer gwneud yn siŵr bod sefydliadau'n cymryd cyfrifoldeb dros agenda'r Gymraeg yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Gyda'r cyfeiriad strategol wedi ei osod yn glir, cyfrifoldeb y Comisiynydd yw cyflwyno trefn reoleiddio gweithredu'r safonau fydd yn galluogi cyflawni'r amcanion hynny.

Yn ogystal, mae Mesur y Gymraeg yn datgan mai prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg⁶. Yn y cyswllt hwn, ac wrth weithredu ei swyddogaethau'n gyffredinol, mae'n rhaid i'r Comisiynydd weithio tuag at gynyddu'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r Gymraeg⁷. Ond, nid yw gwaith y Comisiynydd wedi ei gyfyngu i hynny.

Rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi sylw:

- i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru;
- i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny;
- i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac
- i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.⁸

3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

5 Iaith fyw: iaith byw – bwrw mlaen

6 Adran 3 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

7 Adran 3 (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

8 Adran 3 (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth reoleiddio gweithrediad y safonau bydd y Comisiynydd yn ceisio sicrhau fod sefydliadau'n cyfrannu at y nod o alluogi pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn gwneud hynny drwy:

- weithio ar ran defnyddwyr y Gymraeg;
 - adrodd ar brofiad defnyddwyr y Gymraeg;
 - magu dealltwriaeth o sut mae sefydliadau'n perfformio;
 - dod i farn ar gydymffurfedd gyffredinol â'r safonau ar sail tystiolaeth gadarn;
 - cefnogi sefydliadau i gydymffurfio'n dda â'r safonau;
 - ystyried yn barhaus ddigonolrwydd y gyfraith er mwyn cyflawni amcanion Mesur y Gymraeg.
-

Beth mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei reoleiddio?

5

I'r graddau y mae deddfwriaeth yn ei ganiatáu, dilynir yr un egwyddorion wrth reoleiddio gweithrediad safonau'r Gymraeg ag a wneir wrth reoleiddio cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r fframwaith rheoleiddio hwn yn berthnasol i'r ddwy gyfundrefn.

Safonau'r Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg sydd â'r cyfrifoldeb dros reoleiddio safonau'r Gymraeg. Bydd yn gosod a gorfodi'r safonau hynny ar sefydliadau yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg.

Mae safonau'r Gymraeg yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu dylai sefydliadau beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Bwriad y safonau yw ei gwneud yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu cael yn Gymraeg, a bod y gwasanaethau hynny yn gyson. Mae Mesur y Gymraeg yn pennu pa sefydliadau fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau (Atodlen 5 – 8) yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus yn ogystal â rhai cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector. Mae hefyd yn rhestru'n fanwl y camau i'w dilyn wrth lunio, cymeradwyo a gweithredu'r safonau.

Gellir crynhoi'r camau hynny i:

Cam 1: Cynnal ymchwiliad safonau er mwyn penderfynu a ddylai sefydliad orfod cydymffurfio â safonau ac, os felly, pa safonau ddylai fod yn benodol gymwys iddynt

Cam 2: Cyhoeddi adroddiad safonau sy'n nodi casgliadau'r ymchwiliad safonau a rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny.

Cam 3: Llunio rheoliadau gan Lywodraeth Cymru a'u gosod gerbron cyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad, ac yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio iddo.

Cam 4: Rhoi hysbysiad cydymffurfio i sefydliad i'w gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio ag un neu fwy o safonau. Bydd yr hysbysiad yn egluro pa safonau y mae'n ddyletswydd i'r sefydliad gydymffurfio â hwy ac erbyn pryd.

Cynlluniau iaith Gymraeg

Cyflwynodd Mesur y Gymraeg ddarpariaeth i drosglwyddo swyddogaethau'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg i'r Comisiynydd. Hyd nes y bydd safonau'n cael eu gosod ar sefydliadau, mae cynlluniau iaith Gymraeg, a gyflwynwyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Deddf 1993) yn parhau mewn grym. Sefydlodd Deddf 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder⁹ yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn egluro pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â'r egwyddor hon, a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am reoleiddio eu gweithrediad.

Sut bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rheoleiddio'n rhagataliol?

7

Cyfrifoldeb y sefydliad

O dan y drefn safonau bydd yn bwysig i sefydliad hunan reoleiddio oherwydd mai'r sefydliad, nid Comisiynydd y Gymraeg, sydd o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â'r safonau perthnasol. Mae safonau'r Gymraeg yn cynnwys dyletswyddau penodol er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni hynny¹⁰ yn cynnwys:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i safonau a'r modd y mae'r sefydliad yn bwriadu cydymffurfio â hwy
- Cadw cofnodion
- Cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu a hwyluso
- Cyhoeddi a gweithredu gweithdrefn gwyno
- Llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â chydymffurfedd â safonau
- Darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd

¹⁰ Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfres o reoliadau fydd yn creu safonau sy'n benodol gymwys i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau hynny. Gall y safonau hynny amrywio rhwng rheoliadau.

Gweithgareddau'r Comisiynydd

Mae adran 4 Mesur y Gymraeg yn rhoi'r grym i'r Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg, hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol, ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny¹¹:

- hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg
- cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
- llunio a chyhoeddi adroddiadau
- gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w gwneud
- gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud
- rhoi cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i berson
- gwneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru
- cyflwyno sylwadau i unrhyw berson
- rhoi cyngor i unrhyw berson

Bydd y Comisiynydd yn defnyddio dulliau fydd yn ei galluogi i edrych 'o dan yr wyneb' i gael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam fod pethau fel ag y maent. Wedi hynny, bydd yn defnyddio'i phwerau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ceir isod enghreifftiau o'r dulliau y bydd y Comisiynydd yn eu defnyddio:

Profiad y defnyddwyr

Mae ansawdd profiad defnyddwyr y Gymraeg yn ganolog i waith rheoleiddio'r Comisiynydd. Bydd yn ymgysylltu â defnyddwyr y Gymraeg er mwyn dysgu ac adrodd am eu profiadau. Bydd hyn yn cryfhau ei dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn arwain at reoleiddio llawer mwy effeithiol nag o beidio â'u cynnwys yn y broses. Bydd canfyddiadau'r gwaith yn fodd i sefydliadau roi sylw i'r gwelliannau hynny allai wneud y mwyaf o wahaniaeth i fywydau pobl.

Bydd y Comisiynydd yn cynnal gwaith megis arolygon siopwr cudd neu arolygon defnyddwyr. Gall edrych, er enghraifft, ar brofiadau o ymweld â

derbynfeydd cyhoeddus, ffonio sefydliadau, gohebu â sefydliadau a defnyddio gwefannau a gwasanaethau ar-lein. Ni fydd y Comisiynydd yn rhagrybuddio sefydliadau ynghylch amseriad na natur y gwaith. Gellir cynnal arolwg ar lefel genedlaethol neu mewn ardal ddaearyddol benodol; gyda grwpiau ffocws a gyda charfannau penodol o ddefnyddwyr. Bydd dulliau'n cael eu teilwra'n ôl yr angen yn ddibynnol ar y mater dan sylw.

Codau ymarfer

Caiff y Comisiynydd ddyroddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion unrhyw safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1) Mesur y Gymraeg. Os y bydd yn penderfynu cyhoeddi cod ymarfer bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â'r sefydliadau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau y mae'r cod ymarfer yn ymwneud â hwy. Gobaith y Comisiynydd yw y bydd codau ymarfer yn gymorth i sefydliadau wrth iddynt wneud trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safonau.

Annog arfer da

Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd eu darpariaeth Gymraeg, bydd y Comisiynydd yn chwilio am arferion llwyddiannus sydd wedi eu sefydlu. Unwaith y bydd enghreifftiau wedi eu hadnabod, bydd y Comisiynydd yn dadansoddi'r arferion hynny. Os byddant yn arferion y gellir dangos eu bod yn gweithio'n dda ac sydd wedi eu profi a'u dilysu dros gyfnod o amser, yna bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo'r arferion hynny i sefydliadau eraill.

Bydd y Comisiynydd yn cynnal llyfrgell o astudiaethau achos arferion da, gaiff eu hadnabod o ganlyniad i'w gwaith rheoleiddio, ar ei gwefan. Bydd yn cynnal digwyddiadau o bryd i'w gilydd i godi ymwybyddiaeth o'r arferion da a adnabyddir. Bydd cynrychiolaeth eang o sefydliadau yn cael eu gwahodd er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiadau ymarferol, a hwyluso dysgu gan roi cyfle i drafod atebion i rwystrau cyffredin.

Disgwylir i sefydliadau gynorthwyo'r Comisiynydd drwy fod yn rhagweithiol wrth dynnu sylw at yr hyn y maent yn ystyried yn arfer da yn eu sefydliadau eu hunain. Bydd angen i sefydliadau arddangos parodrwydd i rannu gwybodaeth fanwl am arferion da gyda'r Comisiynydd er mwyn ei galluogi i rannu gwybodaeth ystyrlon ag eraill.

Astudiaethau thematig

Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio'n dda â'r safonau, bydd y Comisiynydd yn cynnal astudiaethau thematig ar ddsbarthiadau o safonau. Bydd yr astudiaethau'n galluogi'r Comisiynydd gael darlun manwl ac eang ynghylch y ffordd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu cyflenwi, a bydd yn ei galluogi i gynnig argymhellion i sefydliadau ynghylch trefniadau i gryfhau a gwella cydymffurfedd, i'w hystyried gan sefydliadau.

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r astudiaethau, a phan fo angen, yn darparu adborth i sefydliadau er mwyn hwyluso gwelliant. Bydd digwyddiadau lle gall sefydliadau chwilio am atebion ar y cyd er mwyn iddynt gydymffurfio hefyd yn cael eu hwyluso.

Bydd y modd y cynhelir yr astudiaethau yn amrywio. Er enghraifft, gellir ceisio gwybodaeth a data gan bob sefydliad neu ddetholiad ohonynt, a gall manylder ymholiadau amrywio hefyd. Gallai'r Comisiynydd ofyn i sefydliadau neilltuo amser swyddogion a chynrychiolwyr eraill er mwyn cyfarfod â'i swyddogion i gyfrannu at yr astudiaeth. Bydd y ffurf yn ddibynnol ar natur yr hyn sydd dan sylw.

Mynd i'r afael â phroblemau systemig

Wrth i'r drefn safonau gael ei chyflwyno o'r newydd, er nad yw nifer fawr o'r gofynion yn newydd i sefydliadau, mae'n bosibl y bydd rhai anawsterau yn ymddangos. Pan ddaw'r Comisiynydd i wybod am broblemau sy'n gyffredin i nifer o sefydliadau, a phan fo sefydliadau'n gallu tystio eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol posib i geisio'u goresgyn, gall y Comisiynydd ddewis wneud gwaith ymchwil a gweithredu er mwyn mynd at wraidd unrhyw anawsterau, ac er mwyn hwyluso gallu sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau.

Gwaith ymatebol

Bydd y Comisiynydd yn dewis gwneud gwaith ymatebol o dro i dro. Byddant yn digwydd pan fo materion o bwys yn codi a ble gall ymwneud y Comisiynydd â'r mater gynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol, er enghraifft, pan fydd darn newydd o ddeddfwriaeth yn cael ei gyflwyno neu pan gynhelir digwyddiad cenedlaethol megis etholiad. Gall materion o'r fath fod yn rhai y mae modd eu rhagweld, neu yn rhywbeth ddaw at sylw'r Comisiynydd drwy ffynonellau eraill megis adroddiadau'r wasg a'r cyfryngau, gwybodaeth gan reoleiddwyr eraill a materion yr hysbysir y Comisiynydd amdanynt gan sefydliadau eu hunain.

Digonolrwydd y gyfraith a Safonau'r Gymraeg

Bydd y Comisiynydd yn mynegi barn am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Rhoddodd Mesur y Gymraeg statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac mae adran 1 (2) Mesur y Gymraeg¹² yn ymhelaethu ar sut mae deddfiadau Mesur y Gymraeg yn rhoi effaith i'r statws hwnnw.

Bydd y Comisiynydd yn arfarnu'r gweithdrefnau a'r prosesau sydd wedi eu sefydlu gan Fesur y Gymraeg i gyflawni'r amcanion o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd yn gwerthuso'r graddau y mae'r safonau sy'n bodoli yn parhau'n berthnasol ac yn ddigonol er mwyn adlewyrchu tueddiadau a datblygiadau newydd mewn dulliau darparu gwasanaethau a chyfleoedd i hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn ogystal, bydd yn ystyried yr angen i ddiwygio atodlenni Mesur y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hynny sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol. Ble bydd tystiolaeth yn dangos nad yw'r gyfraith yn ddigonol, bydd y Comisiynydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru¹³.

Cyffredinol

Bydd y Comisiynydd, fel arfer, yn cyhoeddi adroddiadau ar ei gwaith. Ymhob achos ble bydd sefydliad yn cael ei enwi mewn adroddiad, rhoddir cyfle iddo gyflwyno sylwadau, lle bydd hynny'n briodol, cyn cyhoeddi'r adroddiad.

Yn flynyddol bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad sicrwydd sy'n rhoi trosolwg cyffredinol ynghylch sut y mae sefydliadau'n cyflawni eu dyletswyddau neu'n gwireddu eu hymrwymiaadau iaith. Mae hefyd yn trafod y cyfleoedd sydd gan y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Prif sail yr adroddiad yw'r arolygon y bydd y Comisiynydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nod yr adroddiadau yw rhoi hwb i sefydliadau i fynd ati i gryfhau eu trefniadau a chefnogi unigolion sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o lwyddiant i gydymffurfio ac yn tynnu sylw at achosion ble mae sefydliadau wedi adnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg ac wedi cynllunio'n fwriadus i ymateb i'r galw.

Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir drwy gyfrwng astudiaethau, arolygon neu ymarferion sy'n rhan o'r fframwaith hwn yn cael ei defnyddio i'r pwrpas

12 Adran 1 (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

13 Adran 4 (2) (h) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

y'i bwriadwyd yn unig. Er hynny, os bydd swyddogion yn sgil cynnal darn o waith, yn bryderus nad yw sefydliad yn cydymffurfio gyda safon fel y dylai, caiff unrhyw amheuon eu cyfleu i swyddogion y Comisiynydd sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi Gorfodi. Bydd swyddogion ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd yn ystyried y sefyllfa o dan ddarpariaethau'r polisi hwn. Bydd unrhyw ymchwiliad, os oes ei angen, yn digwydd o dan amodau'r Polisi Gorfodi.

Cydymffurfedd sefydliadau unigol

Safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg

13

Adroddiadau blynyddol

Un elfen o'r broses adrodd am gydymffurfedd â gofynion ieithyddol statudol yw'r adroddiadau blynyddol. Os yw hysbysiad cydymffurfio yn nodi hynny, mae'n rhaid i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Felly hefyd sefydliadau sydd wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Mae'r adroddiadau'n darparu gwerthusiad y sefydliad ei hun o'r modd y mae'n hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r adroddiadau hyn fel ffynhonnell ychwanegol i'r wybodaeth annibynnol y bydd yn ei chasglu ar gyfer mesur cydymffurfedd sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol.

Mae rheoleiddio effeithiol a deallus yn dod o feddu ar wybodaeth dda am sefydliadau ar yr amser iawn. Bydd y Comisiynydd yn ystyried yn ofalus pob adroddiad blynyddol a gyhoeddir ac yn ystyried sut orau i ymateb. Bydd yn defnyddio'r adroddiadau er mwyn adnabod tueddiadau mewn sectorau neu feysydd penodol ac yn sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hynny mewn dull cydlynol drwy ei rhaglen waith flynyddol. Ni fydd y Comisiynydd yn darparu ymateb ysgrifenedig fel mater o drefn i bob adroddiad blynyddol a gyhoeddir.

Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg

14

Mewn rhai achosion bydd y Comisiynydd am dderbyn gwybodaeth bellach a lefel uwch o sicrwydd gan sefydliadau ynghylch eu cydymffurfedd â'r safonau. Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg¹⁴ yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddarparu gwybodaeth y mae'r Comisiynydd yn gofyn amdano sydd yn ymwneud â chydymffurfedd â safonau penodol.

Gall hynny gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, wybodaeth ar faterion megis y canlynol (i'r graddau y caiff y safonau perthnasol eu cyflwyno mewn hysbysiad cydymffurfio sefydliad):

- ansawdd gwasanaethau Cymraeg
- sgiliau Cymraeg cyflogeion
- meithrin sgiliau Cymraeg cyflogeion
- penderfyniadau polisi
- y Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y corff
- ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol
- cwynion
- trefniadau goruchwyllo cydymffurfedd
- hybu a hwyluso defnyddio gwasanaethau
- hybu'r Gymraeg (ble mae'n berthnasol)

Bydd y Comisiynydd yn gofyn i'r wybodaeth gael ei darparu o fewn cyfnod o amser rhesymol gaiff ei bennu ganddi. Disgwylir i'r wybodaeth a gaiff ei gyflwyno fod yn berthnasol, yn gyfredol ac ar ffurf electronig, pan fydd y cais yn gofyn hynny.

Yn y cyswllt hwn, nid yw ceisiadau'r Comisiynydd am wybodaeth yn cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ni all sefydliad felly ddefnyddio eithriadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth er mwyn gwrthod darparu'r wybodaeth, oni bai fod cyfyngiadau cyfreithiol yn caniatáu hynny.

Gweithredu ar ganfyddiadau

15

Mae cyfrifoldeb ar y Comisiynydd i fynegi barn annibynnol ar y cyfleoedd sy'n bodoli i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd yn gwneud hynny drwy adrodd yn gyhoeddus ar ganfyddiadau ei gwaith ac ar berfformiad sefydliadau sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg. Bydd yn sicrhau bod y farn honno'n cael ei chlywed yn y manau cywir gan y bobl iawn. Er mwyn hwyluso gwelliant ym mhrofiadau defnyddwyr y Gymraeg ac i gynorthwyo a gwella cydymffurfedd â'r safonau, bydd yn defnyddio'r pwerau a roddir iddi yn adran 4(2) Mesur y Gymraeg¹⁵:

- llunio a chyhoeddi adroddiadau ar ganfyddiadau a chasgliadau
- gwneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru
- cyflwyno sylwadau a/neu gyngor i sefydliad
- rhannu enghreifftiau o arfer da ac astudiaethau achos
- cynnal digwyddiadau, seminarau a gweithdai i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau a chasgliadau

Eisoed mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfennau cyngor ar faterion megis recriwtio, grantiau, technoleg a dylunio. Bydd y Comisiynydd yn ystyried yr angen am gyngor pellach yn deillio o'i chanfyddiadau wrth reoleiddio. Gall cyngor gael ei ddarparu i sefydliad unigol neu grŵp o sefydliadau, a chaiff sylwadau a chyngor eu cyflwyno yn y fformat sydd fwyaf addas at y diben.

Mae'r Comisiynydd yn awyddus i sicrhau bod llif gwybodaeth yn parhau rhyngddi hi a'r sefydliadau. Pan fydd angen trafodaeth ar waith rheoleiddio'r Comisiynydd, casgliadau'r gwaith hwnnw a barn y Comisiynydd ar berfformiad sefydliadau, bydd yn gohebu â'r sefydliadau i'w threfnu.

Cydweithio â rheoleiddwyr eraill

Mae adran 20 a 21 Mesur y Gymraeg yn caniatáu'r Comisiynydd i gydweithio a chynnal ymchwiliadau ar y cyd ag ombwdsmyr a chomisiynwyr eraill os yw ymchwiliad i orfodi safonau yn bwnc sy'n ymwneud â mater all fod yn destun ymchwiliad ganddynt.

Hefyd, mae cyfrifoldeb cyffredinol ar y Comisiynydd i gydweithio ar y cyd â chyrff craffu eraill er mwyn ychwanegu gwerth a chreu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion Cymru. Bydd y Comisiynydd yn ymgysylltu a rhannu gwybodaeth mewn modd priodol, ac anelir at sicrhau na cheir bylchau na dyblygu rheoleiddiol. Bydd y Comisiynydd yn cyfarfod yn rheolaidd â phartneriaid craffu i drafod materion strategol a gweithredol sydd o ddiddordeb cyffredin.

Hunan werthuso

17

Wrth gyflawni ei dyletswyddau bydd y Comisiynydd yn effro i'r angen iddi hunan werthuso ac asesu effeithiolrwydd ei gwaith rheoleiddio yn unol â'i phrif nod. Bydd yn gwneud hyn yn flynyddol ac os bydd newid i'r Fframwaith hwn bydd yn hysbysu sefydliadau o hynny.

Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd

18

Mae'r weithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 14 Mesur y Gymraeg.

Mae manylion pellach am y weithdrefn hon ar gael ar ei gwefan neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd.

Os bydd unrhyw sefydliad yn dymuno cwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd, gellir cysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru

comisiynyddygybraeg.cymru
